PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 13 | Mawrth 27, 2025 | 50c.




**Mae'n ffodus iawn bod y Parchg Aled Davies yn berson go gydnerth gan ei fod wedi cludo bocsys o lyfrau Cyhoeddiadau'r Gair o gwmpas Cymru i gapeli, gwyliau, eisteddfodau ac ati ers blynyddoedd. Mae Cristnogion Cymru hefyd yn ffodus dros ben bod y math amrywiaeth cyfoethog o lyfrau ar gael i blant ac oedolion. Cwrdd Chwarter Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin yn Elim, Ffynnon-ddrain ar gyrion tre Caerfyrddin oedd pen draw ei daith hir o Benrhyn Llŷn ar bnawn heulog 13 Mawrth.**

### Amrywiaeth ddefnyddiol iawn

Ar ôl i Jean Lewis, cadeirydd y cyfundeb, groesawu Aled fe gafwyd esboniad o amrywiaeth y llyfrau a'u pwrpas ganddo. Er enghraifft, mae tair cyfrol o waith John Lewis Jones (*Agorwn Ddrysau Mawl, Coronwch Ef yn Ben, a Tymhorau Gras*) yn cynnwys oedfaon parod i'w defnyddio petai rhwystr o ryw fath i bregethwr gwadd gyrraedd ar y funud olaf. O gael ychydig mwy o amser i aelodau baratoi, gellir defnyddio tair cyfrol (*Gweddïau Cyhoeddus, Myfyrdodau Cyhoeddus, a Geiriau Cyhoeddus*) sy'n cynnwys tair gweddi, tri myfyrdod, a thri darlleniad sydd i gyd yn ymwneud â'r un testun er mwyn dewis a dethol ar gyfer llunio oedfa. Mae *Yr Enw Mwyaf Mawr* gan Huw John Hughes yn fyfyrdodau ar yr enwau gwahanol ar Iesu Grist, a *Pererin Wyf* yn ymwneud â dilyn Iesu heddiw. Yn naturiol, mae cyfrolau o ddefosiwn ar gyfer y Nadolig, Y Pasg, a Diolchgarwch.

### PWY YW CYHOEDDIADAU'R GAIR?

**Cwmni cyhoeddi o dan adain Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru – elusen sy'n cynrychioli'r prif enwadau Cymraeg. Cafodd ei sefydlu ym 1992, er mwyn cyhoeddi llyfrau Cristnogol Cymraeg. Erbyn hyn mae wedi cyhoeddi dros fil o deitlau Cymraeg a dros miliwn o lyfrau mewn print. Mae dros 20 o deitlau yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol. Aled Davies yw'r cyfarwyddwr.**

**Am fwy ewch i: ysgolsul.com**

### Themâu arbennig

Cyfrol o fyfyrdodau byrion ar 40 o ferched yn yr Hen Destament sydd a'u hanes yn berthnasol inni heddiw yw *Codi'r Llen*, tra bod *Emynau'r Ffydd* yn cynnwys myfyrdodau ar emynau a geir yng *Nghaneuon Ffydd*. Myfyrdodau byrion gan Elfed ap Nefydd Roberts yw *Gwerth y Funud Dawel*, a chyfrol o fyfyrdodau i'w defnyddio mewn Oedfa Gymun yw *Gwnewch hyn* ... gan Beti-Wyn James, a oedd wedi darllen a gweddïo ar ddechrau cyfarfod y pnawn yn Elim.

### Cyfrolau am weddïo

Soniodd Aled am y gwahaniaeth rhwng y weddi ddistaw, bersonol, a'r weddi gyhoeddus. Daw'r un dawel o'r tu fewn inni, ac yn aml nid oes geiriau iddi. Ar y llaw arall, daw'r un gyhoeddus yn aml o lyfr, ond mae'n werth gadael amser tawel yn ystod y weddi honno hefyd. Ac mae modd hefyd ei diweddaru, e.e. trwy ymbil dros lefydd lle mae rhyfela cyfredol. Mae'n bosib defnyddio gweddi mewn llyfr yn ffrâm i'n helpu ni i leisio gweddi sy'n addas i'n sefyllfa ni heddiw. Ceir holl weddïau Elfed ap Nefydd Roberts yn y gyfrol *Cymer fy Munudau*, y llyfr gorau o'i fath erioed ym marn Aled. Ymhlith eraill mae *Gweddïo'r Salmau* gan Euros Jones Evans, *Gweddïau Heddwch a Chyfiawnder* gan Guto Prys ap Gwynfor, a *Mil a Mwy o Weddïau* gan y diweddar Ddr Edwin Courtney Lewis. Erbyn hyn ceir nifer cynyddol o adnoddau ar wefan gair.com. Mae yno fyfyrdodau a gweddïau, ac adnoddau y gellir eu lawrlwytho yn rhatach na'u prynu hwy mewn print. Hefyd, mae modd amrywio maint y print ar y we. Bu'r sesiwn yn Elim yn un defnyddiol ac ymarferol dros ben, a diolchwyd o galon i Aled Davies am ddod atom ni.

(*Bydd mwy o hanes y Cwrdd Chwarter, gan gynnwys cymeradwyo pregethwr cynorthwyol newydd mewn rhifyn pellach o'r Tyst.*)

**Joan Thomas,**
***Cofnodydd y Cyfundeb***



# Grym anorchfygol gobaith

Oeddech chi'n gwybod bod Cymorth Cristnogol yn 80 oed eleni? Ers wyth degawd, rydyn ni wedi bod yn fynegiant o ffydd yng ngrym anorchfygol gobaith i greu byd mwy cyfiawn a heddychlon. Rwy'n dweud 'ni', oherwydd mae Cymorth Cristnogol yn fudiad anhygoel o bobl a phartneriaid – mudiad y mae sawl cymuned yma yng Nghymru wedi bod yn rhan ohono o'r cychwyn cyntaf fwy neu lai.

Mae hi'n cymryd tipyn o ymrwymiad i gynnal gwaith fel hwn dros y degawdau, ac mae'r ffyddlondeb i weledigaeth y mudiad yn rymus ymhlith unigolion, eglwysi a chymunedau heddiw. Efallai na ddylai hyn ddim bod yn syndod. Mae'r gwaith wedi ei sefydlu ar ffydd yng 'ngrym anorchfygol gobaith', a dyma eiriau neu ymadrodd a glywch yn ystod y flwyddyn.

Diolch i gefnogaeth ffyddlon at y gwaith, y llynedd drwy 260 o bartneriaid, cyrhaeddwyd 4.5 miliwn o bobl drwy gannoedd o brosiectau – o grwpiau arbed a chynilo i sefydlu dulliau ffermio cydweithredol, o hyfforddiant i leihau risg trychinebau hinsawdd i waith iechyd. Rydym yn hynod ddiolchgar am ymateb hael eglwysi Cymru i'r gwaith dyngarol yn Gaza ac ar draws y Dwyrain Canol, lle mae ein partneriaid yn parhau i roi cefnogaeth sy'n achub bywydau pobl gyffredin yng nghanol y gwrthdaro. Nawr, yn dilyn Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol, a dynnodd sylw at sefyllfa druenus ffoaduriaid yn Ne Swdan, rydym wedi lansio Apêl Argyfwng Swdan ddiwedd Ionawr i helpu rhagor o bobl sydd wedi gorfod ffoi o'u cartrefi oherwydd gwrthdaro ac sy'n wynebu bygythiadau pellach o newyn ac afiechyd.

Mae'r alwad i weithredu dros gyfiawnder cyn gryfed ag erioed. Hoffem estyn gwahoddiad i bawb eleni – yn unigolion, teuluoedd, eglwysi a chymunedau – i nodi pen-blwydd arbennig Cymorth Cristnogol mewn rhyw ffordd. Wrth i ni ddiolch am ymrwymiad diwyro ein heglwysi a'n cymunedau, dyma gyfle i ailymrwymo i'r gwaith heddiw i greu dyfodol gwell i holl bobl Dduw. Bydd nifer o adnoddau arbennig i nodi pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn 80 ar gael cyn bo hir.

Diolch am fod yn rhan o'r mudiad hwn o bobl, eglwysi a mudiadau lleol sydd yn eiriol dros urddas, cydraddoldeb, cyfiawnder a chariad. Dyma ychydig o bethau i godi calon ac i'w nodi yn y dyddiadur dros y misoedd nesaf.

### Adroddiad *Our Year of Impact*

Bydd yr adroddiad bach lliwgar *Our Year of Impact* yn codi calon ac yn eich annog i weithredu yn erbyn tlodi yn 2025. Sylwch ar stori her tri chopa Iwan Williams y llynedd er cof am ei nain, Irene Williams, a fu'n sbardun i rai o grwpiau gweithredu cyntaf Cymorth Cristnogol yng Nghymru.

### Hanner Marathon Caerdydd

Mae gennym 10 lle os hoffech ymuno â thîm Cymorth Cristnogol Cymru ym mis Hydref 2025. Gellir cofrestru ar wefan Cymorth Cristnogol

### Taclo Tlodi adeg y Grawys

Mae'r cwrs chwe wythnos hwn wedi'i gynllunio gyda phartneriaid anhygoel yn y Deyrnas Unedig er mwyn helpu i gael dealltwriaeth ddyfnach o dlodi a magu hyder i drafod y mater gyda chynrychiolwyr gwleidyddol. Mae'n ddelfrydol ar gyfer y Grawys ac ar gael yn llawn yn Gymraeg.

### E-newyddion Cymorth Cristnogol Cymru

I dderbyn diweddariadau gan Gymorth Cristnogol Cymru, mi fedrwch gofrestru i dderbyn ein neges e-bost newydd, a fydd yn cael ei hanfon atoch bob mis neu ddau. Ewch i dudalen hafan y wefan a sgrolio i lawr i'r gwaelod, ac yn y gornel dde, fe welwch 'Receive updates about our work': www.christianaid.org.uk

**Mari McNeill**
***Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru***




**Eglwysi yr Annibynwyr: Seion, Aberystwyth a Bethel, Tal-y-bont**
***ac* Eglwysi y Bedyddwyr: Bethel, Aberystwyth a Horeb, Penrhyn-coch**

**GOFALAETH NEWYDD • CYFLE NEWYDD • HER NEWYDD**

Mae aelodau'r eglwysi uchod yn awyddus i estyn galwad i

**WEINIDOG AMSER LLAWN**

i'w gwasanaethu a'u harwain i'r dyfodol gyda'r nod o hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yn eu bro.

Paratowyd pecyn gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer darpar ymgeiswyr. Cysyllter drwy e-bost neu alwad ffôn er mwyn derbyn manylion.

E-bost: eirianmevans@gmail.com
Ffôn: 01970 832473




Yr Adran Gydenwadol

MAWRTH 27 2025 RHIF 213

## Dim organydd? – Dim problem!

Wrth i niferoedd yr addolwyr edwino mewn llawer o gapeli ac eglwysi ar hyd a lled Cymru, mae llawer o gynulleidfaoedd erbyn hyn yn wynebu'r broblem o fod heb organydd i gyfeilio mewn oedfa. Dros y blynyddoedd diwethaf bu rhai'n defnyddio traciau cefndir ar gryno-ddisg – cyfeiliant organ a phiano i donau cyfarwydd. Fe ryddhaodd Undeb yr Annibynwyr gryno-ddisg â 30 o donau arnynt, a chyhoeddwyd pecyn o gryno-ddisgiau *No Organist? No Problem!* gan gwmni cyhoeddi Kevin Mayhew, sy'n cael ei werthu yng Nghymru gan Gyngor yr Ysgolion Sul.

Ond wrth i dechnoleg chwarae'r cryno-ddisgiau hynny ddiflannu'n raddol, mae'n dda medru cyhoeddi bod yna wefan ar gael sy'n cynnig traciau cefndir o dros fil o donau cyfarwydd – a hynny yn rhad ac am ddim. Yma ceir tua 500 o donau sydd i'w gweld yn *Caneuon Ffydd*. Ar wefan gobaith.cymru ceir yr holl donau sydd allan o bob hawlfraint yno i'w lawrlwytho, yn rhad ac am ddim. Maent yno mewn 3/4 fformat gwahanol – organ draddodiadol, piano syml neu fand eglwys. Paratowyd yr adnodd hwn gan weinidog Bedyddiedig o Awstralia, a aeth ati i greu dolenni rhwng geiriau *Caneuon Ffydd* a'r tonau perthnasol.



Maent ar gael ar fformat MP3 i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim i'ch cyfrifiadur. Rhoddir dewis i chi i lawrlwytho ffeil un ai gyda chyfeiliant organ, piano neu sŵn band llawn. Cliciwch ar yr emyn perthnasol ac fe'ch arweinir at y tonau sydd ar gael i'w lawrlwytho. Noder y bydd angen i chi gofrestru (yn rhad ac am ddim) y tro cyntaf, ac o hynny ymlaen cewch fynediad hawdd i bob un emyn-dôn. Ewch i https://gobaith.cymru/cyfeiliant-iw-lawrlwytho/ i gofrestru a chael mynediad i'r holl donau, a hynny'n rhad ac am ddim.

Hefyd, ar wefan smallchurchmusic.com ceir dros fil o donau wedi eu rhestru yn nhrefn yr wyddor. Cliciwch ar y ddolen i'w gweld: https://www.smallchurchmusic.com/Tune_List-New.php. Mae modd dewis tôn yn ôl mesur yn ogystal; cliciwch ar y ddolen i weld y mesurau gwahanol: https://www.smallchurchmusic.com/Meter_List-New.php



Ar wefan hymnary.org ceir detholiad o donau, emynau a bywgraffiadau emynwyr o Gymru:
tonau: https://hymnary.org/search?qu=all%3Awelsh%20in%3Atune
emynau: https://hymnary.org/search?qu=all%3Awelsh%20in%3Atext
bywgraffiadau: https://hymnary.org/search?qu=all%3Awelsh%20in%3Aperson

Ar wefan http://cristnogaeth.cymru/emynau-a-chaneuon/ cewch drawsolwg o'r gwahanol ffynonellau sy'n cynnig adnoddau emynyddol yn Gymraeg. Yn eu plith ceir adran o dros gant o emynau plant gwreiddiol wedi eu recordio gan Andy Hughes ac sydd ar gael ar Youtube – adnodd gwych i ysgolion Sul.

## Emynau newydd ar wefan gobaith.cymru

Mae 11 emyn newydd wedi eu hychwanegu at https://gobaith.cymru/ yn ystod y dyddiau diwethaf hyn, gydag 16 emyn arall ar y ffordd o fewn yr wythnosau nesaf.

Yn eu plith y mae un emyn gwreiddiol Cymraeg newydd gan Casi Jones ar gyfer Gŵyl Ddewi, ambell gyfieithiad Cymraeg newydd o emynau traddodiadol a nifer o gyfieithiadau Cymraeg o ganeuon mawl cyfoes diweddar.

Dyma'r rhai sydd wedi eu huwchlwytho'n ddiweddar. Sgroliwch i lawr i'r adran 'Caneuon Diweddaraf' ar ein tudalen hafan er mwyn eu gweld:

Rhyfeddol Dduw a Chreadigol Un (Casi M Jones)

O Ysbryd Glân y bywiol Dduw / O Spirit of the living God (James Montgomery, 1771–1854)

Oen ein Duw / Lamb of God (David Funk, Jason Ingram, Matt Redman)


Mawr wyt, ein Iôr / Great Are you Lord (Jason Ingram, David Leonard, Leslie Jordan)

Fy ngweddi, Iôr, yw cael tyfu'n awr / I asked the Lord that I might grow (John Newton 1725–1807)

O Wele (Cân F'enaid, Cân) / Behold (Then Sings my Soul) (Joel Houston)

Pan Drechwyd Marwolaeth / Death Was Arrested (Adam Kersh, Brandon Coker, Heath Balltzglier, Paul Taylor Smith)

Fy Nuw yw f'Angen Oll / My God is All I Need (Fiona Aghajanian, Harrison Druery, Jaywan Maxwell, Jonny Robinson, Rich Thompson, Ruth Harms Calkin a Tiarne Tranter)



Salm 42 / Psalm 42 (Jonny Robinson a Triane Tranter)

Llawen Gân / Song of Joy (Doug Horley a Mark Read)


Os ydych chi wedi cyfansoddi neu gyfieithu emyn, cofiwch fod croeso i chi ei anfon atom i'w gynnwys ar y wefan. Anfonwch yr emynau at: delythwyndavies@hotmail.co.uk

# Bonhoeffer

Pan enillodd y ffilm *Conclave*, sy'n adrodd hanes dychmygol ethol Pab newydd yn y Fatican, gymaint o glod ac o wobrau yn seremoni'r Oscars eleni, datganodd colofnydd ffilmiau un o bapurau newydd Llundain, 'Mae Duw yn ôl'. Os oedd angen cadarnhad o hynny, cafodd ffilm arall ac iddi gefndir crefyddol ei rhyddhau'n ddiweddar, sef *Bonhoeffer*. Y tro hwn, adrodd hanes go-iawn y mae'r ffilm, ac yn benodol, hanes un o ddiwinyddion amlycaf a mwyaf blaengar yr Almaen yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, sef Dietrich Bonhoeffer.

Gweinidog Lutheraidd a diwinydd academaidd oedd Bonhoeffer, ac mae tua phymtheg o lyfrau o'i waith eu cyhoeddi, nifer ohonynt ar ôl ei farwolaeth yn 1945. Profodd llawer ohonynt i fod yn ddylanwadol iawn, ac y maent yn dal yn boblogaidd heddiw, nid yn unig ymysg pregethwyr a diwinyddion, ond ymhlith amrywiaeth eang iawn o bobl trwy gyfrwng tua phump ar hugain o ieithoedd gwahanol. Ymysg ei gyfrolau mwyaf adnabyddus y mae *The Cost of Discipleship* a *Letters and Papers from Prison*. Roedd hefyd yn heddychwr o argyhoeddiad cadarn, ac y mae'r ffilm yn ein harwain at ei benderfyniad, wedi llawer o hunanymholi dwys, i gefnogi cynllwyn i ladd Hitler. Yn 1943, ac yntau'n 39 oed, cafodd ei ddal gan y Natsïaid a'i ddienyddio, bum mis cyn i'r rhyfel ddod i ben. Cyn hynny, bu'n pregethu'n eofn yn erbyn Hitler a'r Natsïaid, gan lawn sylweddoli ei fod yn peryglu ei fywyd ei hun. Roedd yn ŵr eithriadol o ddewr, ac mae'n dda gweld bod ei hanes yn cael ei gyflwyno o'r newydd eleni, wyth deg o flynyddoedd ar ôl ei farwolaeth.

Perthyn i'r ffilm lawer o wendidau, ac y mae'r beirniaid wedi bod yn barod iawn i dynnu sylw atynt. Mae a wnelo rhai o'r cwynion â'r modd y mae'r sgript yn gwyro oddi wrth y ffeithiau hanesyddol yn aml, ac mae honno'n feirniadaeth ddigon teg. Er enghraifft, doedd Bonhoeffer ddim yn un o arweinwyr y cynllwyn yn erbyn Hitler, fel y caiff ei bortreadu yn y ffilm; dim ond sefyll ar yr ymylon yr oedd mewn gwirionedd. Ond, wrth gwrs, gellid dadlau bod unrhyw gynhyrchiad o'r fath




yn rhwym o newid rhywfaint ar yr hanes o dro i dro er mwyn yr effaith ddramatig.

I mi, rhyw bethau bach oedd yn codi gwrychyn. Yn un peth, mae'r ddeialog yn sathredig ac ystrydebol ar adegau: bron na allwch chi adrodd y geiriau cyn i'r cymeriad eu llefaru ambell dro, oherwydd mae'r cwbl mor amlwg. Ac a oedd pobl yn y 1940au yn dweud, 'Going forward …'? Ymadrodd sy'n perthyn i 20au'r unfed ganrif ar hugain yw hwnnw, siŵr o fod! Ar ben hynny, mae dewis cael yr actorion i siarad Saesneg ag acenion Almaenaidd ffug yn ddyfais henffasiwn heddiw. Gwell fyddai cael y ddeialog mewn Almaeneg gydag is-deitlau, neu gael y cyfan mewn Saesneg naturiol. Trueni hefyd na fyddem wedi cael mwy o hanes personol Dietrich Bonhoeffer – ar wahân i'r golygfeydd gor-sentimental ar y dechrau – ac o leiaf ryw gyfeiriad at ei gyfraniad enfawr i feddwl Cristnogol yr ugeinfed ganrif.

Ond fe grëwyd y ffilm gyda phwrpas a neges gyfoes mewn golwg, ac y mae ynddi rybuddion pwysig. Fel y gwyddom, fe gododd Natsïaeth allan o dlodi a thrueni'r Almaen yn y 1920au a'r 1930au, a chafodd anniddigrwydd y bobl ladmerydd carismataidd yn Adolf Hitler. Llwyddodd i'w hargyhoeddi fod yna ddosbarthiadau penodol o fewn y gymdeithas oedd yn gyfrifol am gyflwr gwael y genedl, yn bennaf oll yr Iddewon.

Peth peryglus yw caniatáu i arweinydd gael ei ddyrchafu'n eilun gan ei ddilynwyr, a hynny'n gwbl ddigwestiwn. Does dim angen inni edrych ymhell am enghreifftiau o hynny heddiw! A meddyliwn am dwf dychrynllyd yr adain dde eithafol mewn sawl gwlad ar draws Ewrop ar hyn o bryd, gan gynnwys yr Almaen.

Pwyslais arall sy'n ganolog i stori'r ffilm yw cyfrifoldeb Eglwys Iesu Grist i ddweud y gwir yn wyneb pob anwiredd, a sefyll gyda'r gwir, costied a gostied. Pan oedd prif eglwys yr Almaen yn cefnogi celwydd gwenwynig Hitler, neu o leiaf yn cadw'n dawel, sefydlodd Bonhoeffer, Martin Niemöller ac eraill yr Eglwys Gyffes er mwyn diogelu neges Iesu Grist, a'r Beibl drwyddo draw: bod Duw yn galw arnom i amddiffyn y gwan a'r gorthrymedig. Ymysg dywediadau mwyaf adnabyddus Bonhoeffer y mae'r geiriau hyn: 'Nid yn unig y mae ar y gwan angen y cryf, ond ni all y cryf fodoli heb y gwan.'

Gyda'i holl ddiffygion, mae *Bonhoeffer* yn ffilm werth ei gweld, a bydd yn siŵr o roi digon inni i fyfyrio arno a'i drafod yn ein hoes gythryblus ni.

*Glyn Tudwal Jones*
*Caerdydd*

**Seiat Zoom**

Cristnogaeth 21

Croeso i BAWB

Nos Lun Ebrill 7ed 7- 7:45 yh

Dewch i drafod gyda'n gilydd...

Y Beibl- Gair Duw?

Cysylltwch â cristnogaeth21@gmail.com i dderbyn y ddolen zoom

Cristnogaeth 21

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 30 Mawrth, am 6:45yh – Sul y Mamau**
Bydd Nia Roberts yn dathlu Sul y Mamau yn ardal Wrecsam, bro Eisteddfod Genedlaethol 2025. Cawn fwynhau gwledd o ganu mawl o Gymanfa Gyhoeddi'r Brifwyl yng Nghapel Bethlehem, Rhosllannerchrugog. A bydd perfformiadau hudolus gan Osian Wyn Bowen a grŵp lleisiol C.Ô.R.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 30 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Allan R. Jones

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 30 Mawrth, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Catrin Haf Williams, Caerfyrddin

# Undod Cristnogol mewn Byd sy’n Chwalu

WYTHNOS 4

## Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon – myfyrdodau ar gyfer y Grawys

**Cysylltiadau Rhyng-ffydd**

**Darlleniad**

Diarhebion 8:1–3

**Myfyrdod**
Yn ystod yr Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol eleni buom yn myfyrio ar arwyddocâd Credo Nicea, a sut gall y datganiad ffydd hwn ein helpu i ledaenu Newyddion Da yr Efengyl yn y gymdeithas amrywiol a geir heddiw.

Datblygiad cadarnhaol yn y canrifoedd ers Cyngor Nicea yw dangos mwy o barch wrth ymwneud â chrefyddau eraill a gwerthfawrogi’n well y doethineb a rennir gennym ac y gallwn ei gynnig gyda’n gilydd ar faterion moesol a moesegol. Hefyd, cafwyd mwy o gydweithio a chyfrifoldeb ar y cyd dros faterion rhyddid crefydd neu gred i bawb.

Yn amlwg, mae llawer mwy o waith i’w wneud yn y maes hwn. Mae’r cynnydd a adroddwyd yn ddiweddar mewn gwrth-Semitiaeth ac Islamoffobia, yn ogystal â dulliau eraill o amharchu neu ddangos gelyniaeth tuag at ffydd, ac eithrio’r ffydd Gristnogol, yn dangos bod angen mwy o ymdrech yng ngwaith cysylltiadau rhyng-ffydd.

Yn ystod helyntion Awst 2024 gwelsom ymdrechion i ddefnyddio ein ffydd Gristnogol fel arf i danio anoddefgarwch a hyd yn oed ymosodiadau yn erbyn cymunedau crefyddol eraill. Un o’r prif themâu yn y ddeialog eciwmenaidd a ddilynodd y profiad hwn oedd ein pryder cyffredin am y ffordd yr oedd ein ffydd yn cael ei hecsbloetio a’i chamliwio, a’r canlyniadau dinistriol i’n cymdogion mewn cymunedau ffydd eraill o ran eu hymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn. Cyhoeddodd arweinwyr a grwpiau eglwysig ddatganiadau’n condemnio’r iaith casineb a’r bygythiadau, gan herio’r modd yr oedd y ffydd Gristnogol yn chael ei chamliwio a mynegi undod â chymunedau crefyddol eraill. Gwerthfawrogwyd y rhain yn fawr gan arweinwyr crefyddau eraill, gan eu helpu nhw i dawelu meddwl eu cymunedau.

Wrth wrando ar arweinwyr cymunedau lleol a gafodd eu heffeithio gan helyntion Awst 2024, lle roedd perthynas rhyng-ffydd gref yn bodoli yn lleol gwelsom ei bod yn elfen ganolog yn ymateb y gymuned, gan roi sylfaen yn aml ar gyfer ymgysylltu ehangach. Clywsom bryderon hefyd, lle nad oedd perthynas o’r fath yn bodoli neu’n fwy cyfyngedig, fod pobl yn ei chael yn anodd gwybod ble i ddechrau rhoi cymorth mewn cyfnod o argyfwng.

Ar adeg o bwysau cynyddol ar gysylltiadau rhyng-ffydd, gwerthfawrogwyd y cyfleoedd a gafwyd drwy ddeialog eciwmenaidd i wynebu’r ansicrwydd a’r sensitifrwydd gyda’i gilydd. Mae gwaith undod Cristnogol yn rhoi sylfaen gref i ymgysylltu â phobl o grefyddau eraill. Ac mae rhannu ein ffydd Gristnogol yn y byd cyhoeddus amrywiol yn amlwg yn cael ei gryfhau pan fyddwn yn siarad â’n gilydd. A gallwn brofi bod ein ffydd ein hunain yn cael ei chryfhau wrth inni ddangos parch tuag at eraill pan fyddwn yn ymwneud â nhw.

**Cwestiynau ar gyfer myfyrio a thrafod**
- Pa ansoddeiriau fyddech chi’n eu defnyddio i ddisgrifio cysylltiadau rhyng-ffydd yn eich cyd-destun lleol ar hyn o bryd?
- Beth yw rhai o’r prif rwystrau neu fygythiadau i gysylltiadau rhyng-ffydd yn eich cyd-destun chi?




- Ydych chi’n teimlo’n hyderus wrth siarad am eich ffydd â rhywun o grefydd wahanol? Os nad ydych, beth yw eich pryderon?

**Gweithredu**
- Rhestrwch y materion y mae cymunedau ffydd yn cydweithio arnynt ar hyn o bryd yn eich ardal. Ydych chi’n teimlo bod hyn yn adlewyrchu’n ddigonol ein gofal cyffredin dros anghenion y gymuned? Os nad ydyw, pa gamau y gellid eu cymryd i ehangu’r ymgysylltu hwnnw?
- Ystyriwch y strwythurau a’r berthynas sydd ar waith ar hyn o bryd i gefnogi deialog rhyng-ffydd yn eich cyd-destun chi. Ydy’r rhain yn ddigonol? Os nad ydynt, ble mae cyfleoedd yn cael eu colli?
- Nodwch ddigwyddiad a gynhelir gan gymuned ffydd arall y gallech fod yn bresennol ynddo i helpu i sefydlu cysylltiadau newydd?

**Gweddi**
Dduw pawb,
agor ein calonnau a’n meddyliau
i ddoniau pobl o grefyddau eraill.
Helpa ni i ymgysylltu â nhw mewn
chwilfrydedd parchus
a rhannu ein ffydd a’n profiadau ein
hunain yn hael.
Gweddïwn am rwydweithiau o
berthnasoedd rhyng-ffydd cryf
a fydd yn arwydd o obaith yn ein
cymunedau
ac yn ein helpu i greu’r amodau
lle gall pawb ffynnu
a theimlo’u bod yn perthyn.
Amen.




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru



(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Cymorth i farw

*Dyma ail ran erthygl werthfawr Irfon Roberts am gymorth i farw.*

### Gall bod perygl ein bod ar lwybr llithrig

Mewn gwledydd sydd eisoes yn caniatáu cymorth i farw ceir tystiolaeth fod llacio rheolau'n digwydd wrth i'r arfer normaleiddio. Byddai'n werth talu sylw i'r hyn sydd yn digwydd yng Nghanada. Ers agor y llifddorau yn 2016 gwelwyd cynnydd syfrdanol yn y niferoedd yn defnyddio gwasanaeth MIND (Medical Assistance in Dying). Dechreuodd y cyfan gyda'r un dadleuon a'r un mesurau diogelwch ag yma. Mae'r mater bellach yn achos gofid cynyddol i feddygon gan eu bod yn teimlo eu hunain o dan bwysau i gydymffurfio. Yn Vancouver gorfodwyd cartref gofal lliniarol oedd yn cael ei redeg a'i gynnal gan Gristnogion i gau. Pwy sydd i ddweud na ddigwydd yr un peth yma maes o law?

### Gofal lliniarol

Er bod llawer o nyrsys a meddygon gofal lliniarol ymhlith yr ymarferwyr meddygol mwyaf gofalgar ac anhunanol, ychydig o bobl fyddai'n hawlio fod y sector gofal, a'r sector gofal lliniarol yn benodol, cystal ag y gallai fod ar hyn o bryd. Mae angen mwy o gyllid er mwyn gwella'r gwasanaeth i leihau poen a gwneud y



diwedd mor esmwyth ag sydd bosib. Er iddi gefnogi newid yn y gyfraith eglurodd, Liz Saville Roberts fod ei chefnogaeth yn amodol; ei bod o'r farn y byddai '... rhaid gwella gofal lliniarol cyn ac ar ôl unrhyw bleidlais ar farw â chymorth.'

### Ystyriaethau economaidd

Mae'n realiti trist bod economeg yn chwarae rhan yn y ddadl hefyd. Os yw arian yn cael ei wario ar farw â chymorth – gyda'i holl fesurau diogelu – a yw hynny'n golygu na fydd arian ar gael i rannau eraill o'r GIG? Onid yw'n debygol y bydd gofal lliniarol yn derbyn llai o fuddsoddiad os oes llwybr rhatach amgen i roi terfyn ar ddioddefaint? Beth hefyd os yw rhai dioddefwyr yn gweld hyn fel ffordd o adael mwy o'u harian i'w plant neu berthnasau? Neu beth os yw'r plant neu berthnasau yn ystyried marwolaeth gynnar fel modd i gael yr arian i'w dwylo 'nghynt? Busnes anodd tu hwnt yw darllen a deall cymhellion pobl!

### Hawliau personol

Myn rhai mai ganddynt hwy, a hwy'n unig, mae hawl ar eu bywydau'u hunain. O safbwynt Cristnogol, fodd bynnag, eiddo Duw'r hawl ar fywyd, nid ni.

### I gloi

Fel un a fu'n dyst i nifer o farwolaethau gwn yn dda am wewyr gorfod gwylio rhai'n dioddef. Bu gorfod gwylio anwylyn yn ymadael mewn poen yn brawf ar ffydd aml un ohonom. Ni cheisiaf am foment gymryd arno fod hwn yn fater hawdd ei drafod. Gwyddom fod cymorth i farw yn digwydd eisoes. Wrth i feddyg weinyddu cyffur i ddofi poen gŵyr yn iawn ei fod mewn rhai achosion yn prysuro'r diwedd 'run pryd. Ond, mae hynny'n gwbl wahanol i roi terfyn ar fywyd yn fwriadol. Lleddfu poen yw'r bwriad – nid dod â bywyd i ben. Mae llawer mwy i'w ddweud ar y mater. Fy ngobaith yw y bydd pobl o leiaf yn ystyried y mater ac yn ceisio ffurfio eu barn eu hunain yn hytrach na'i adael yn gyfan gwbl yn nwylo dyrnaid o wleidyddion yn unig.

Un cwestiwn cyn gorffen. A fydden ni'n fodlon cynorthwyo i ddwyn bywyd rhywun arall i ben? Os mai na yw'n hateb, pa hawl sydd gennym i ofyn i feddyg – sydd wedi addunedu i achub bywyd – ei wneud yn ein lle?

**Irfon Roberts**

(allan o'r *Feidr,* cyfrol viii, rhifyn 2, 2025, cylchgrawn eglwys Capel Mair, Aberteifi)

# MAE HELP AR GAEL BOB AMSER

Mae'n debyg eich bod yn gyfarwydd â'r enw Panel Diogelu Cydenwadol yn bennaf oherwydd, os ydych yn arweinydd eglwys, yn ymddiriedolwr neu'n wirfoddolwr mewn eglwys, byddwch wedi gwneud gwiriad DBS drwy'r Panel.

Mae'r Panel yn brysurach nag erioed y dyddiau hyn, gan wneud llawer mwy na gwiriadau DBS i helpu i wneud eglwysi yn llefydd mwy diogel i bawb. Mae gennym bartner newydd i sicrhau y gallwch bob amser gael gafael ar gymorth a chefnogaeth diogelu hyd yn oed y tu allan i oriau swyddfa. Mae thirtyone:eight yn elusen diogelu Gristnogol annibynnol sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth i ystod eang o eglwysi a sefydliadau ffydd.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Panel wedi derbyn nifer cynyddol o alwadau gan eglwysi yn gofyn am help a chyngor i ddelio â phob math o faterion sy'n ymwneud â diogelu. Gallai hyn fod yn gofyn am gymorth gydag asesiadau risg, cymarebau oedolion:plant, recriwtio mwy diogel neu sefyllfaoedd diogelu mwy cymhleth fel troseddwyr hysbys sy'n mynychu'r eglwys, datgeliadau cam-drin cyfredol a hanesyddol, unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl, i enwi rhai meysydd pryder allweddol.

Mae cytundeb gweithio mewn lle bellach sy'n galluogi eglwysi o Undeb Bedyddwyr Cymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, i gael mynediad i'r Llinell Gymorth Diogelu Thirtyone:eight, yn enwedig y tu allan i oriau swyddfa'r Panel fel a ganlyn:

- 7am–9am a 5pm–hanner nos yn ystod yr wythnos,
- 7am–hanner nos ar benwythnosau a gwyliau banc.
- Gellir cysylltu â'r llinell gymorth hefyd yn ystod oriau swyddfa (h.y. 9am–5pm).

*parhad ar y dudalen nesaf*



# Golygyddol

## Addoli mewn eglwysi Saesneg

Yma, rwyf am ddelio ag un o'r cwestiynau sydd wedi codi yn gyson tros y blynyddoedd, sef pam fod cymaint o Gristnogion Cymraeg eu hiaith yn dewis addoli mewn eglwysi Saesneg eu cyfrwng?

Erbyn hyn, mae llawer mwy nag y bu yn gwneud hynny, yn enwedig ieuenctid ac oedolion ifanc, ac y mae nifer o'm ffrindiau yn eu plith. Mae rhai ohonynt yn genedlaetholwyr i'r carn, felly rhaid troedio'n ofalus a meddylgar wrth ymdrin â'r pwnc hwn. Fy mwriad yw nid condemnio pobl sy'n dewis gwneud hyn ond ceisio deall yn well pam ei fod yn digwydd mor gyson. Colled fawr i ni yw eu habsenoldeb. Mae'r mwyafrif ohonynt yn bobl dda, yn feddylgar a chydwybodol, a byddai'n gymaint caffaeliad i'r eglwysi Cymraeg eu cael yn ein plith yn gwneud eu cyfraniad gwerthfawr i waith y Deyrnas.

### Rhaid ymgodymu

Fel gweinidog sydd wedi fy ngalw gan yr Arglwydd i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg, rwy'n pendilio wrth ystyried y cwestiwn hwn rhwng gwahanol gyflyrau fel dihidrwydd (be 'di'r ots!), gofid, rhwystredigaeth, anobaith a chynddaredd. Gallwn wrth gwrs beidio ag ymgodymu â'r cwestiwn o gwbl gan gymryd mai peidio â sathru ar gyrn neb yw nod bywyd. Ond onid rhan o'n gwaith proffwydol, fel arweinyddion Cristnogol, yw anniddigo pobl a'u herio i ystyried yr hyn a wnânt? Gall tawedogrwydd fod yn arwydd o lwfrdra. Wrth drafod hyn rhaid inni gydnabod bod rhai Cristnogion eithafol yn dweud bod cynnal eglwys Gymraeg yn atal gwaith yr Efengyl, gan fod pawb yn siarad Saesneg! Rwy'n parhau i glywed y mantra anfeiblaidd hwn hyd yn oed heddiw. Ond, hen rethreg ddiflas yw hon sy'n tarddu o agweddau ymerodraethol Cristnogion sydd mewn diwylliant ieithyddol mwyafrifol, ac nid wyf am fynd ar ôl yr ysgyfarnog hwn yn awr.

### Rhesymau

Rhydd nifer o Gristnogion Cymraeg sy'n addoli mewn eglwysi Saesneg resymau digon dilys dros wneud hynny. Dyma rai enghreifftiau: 'Mae fy ng r/gwraig yn ddi-Gymraeg ac felly, er mwyn cydaddoli, rhaid mynd i eglwys Saesneg;' 'Nid oes eglwys fyw Gymraeg yn ein hardal!' 'Nid oes gwaith plant ac ieuenctid yn yr eglwysi Cymraeg;' "Nid yw'r pwyslais diwinyddol yn iach yn yr eglwysi Cymraeg;' 'Mae diwylliant yr eglwysi Cymraeg yn rhy draddodiadol a hen ffasiwn;' 'Mae'r gynulleidfa yn rhy fychan.' Rhaid cyfaddef; mae pob un o'r rhain yn rhesymau da.

### Cwestiynau

Eto, hoffwn herio'r agweddau hyn gyda nifer o gwestiynau. Onid oes digonedd o Gristnogion uniaith Saesneg sy'n cael ei galw gan Dduw i weithio a chynnal eglwysi Saesneg eu hiaith? Ai camgymeriad gan yr Hollalluog oedd eich creu yn Gymro neu'n Gymraes Cymraeg eich iaith a'ch gosod i fyw yng Nghymru? Gan eich bod yn siarad Cymraeg a oes bwriad gan yr Arglwydd i'ch defnyddio i rannu'r Efengyl trwy gyfrwng y Gymraeg? Pam na allwch gychwyn, dan law yr Ysbryd ac mewn ufudd-dod i'r Gair, gynulleidfa Gymraeg newydd sydd at eich dant yn ddiwylliannol a diwinyddol? Pam na allwch fynd i eglwys Gymraeg fyw a phenderfynu, fel offeryn yn llaw Duw, ei hadeiladu a'i thyfu? Beth am gychwyn gwaith Cristnogol Cymraeg ar gyfer plant ac ieuenctid? A ddylech annog eich cymar i ymroi i ddysgu Cymraeg er mwyn tystio i Efengyl yr Arglwydd Iesu? A yw Duw yn eich galw chi heddiw i newid trywydd a gwneud un o'r pethau hyn?

Nid digon yw i neb ohonom ddweud yn achlysurol, 'Mae gen i galon dros y Gymru Gymraeg a chyflwr ysbrydol y genedl,' ac yna addoli yn Saesneg. Mae gennym sgil bwysig, sef medru siarad Cymraeg, sy'n ein galluogi i rannu'r Efengyl i'r degau o filoedd o Gymry sydd ar eu cythlwng yn ysbrydol, ac angen clywed y Newyddion Da.

### Dysgwyr

Cyn gorffen, rhaid nodi mai cyfrwng bendith fawr i ni fel eglwysi yw'r nifer o ddysgwyr Cymraeg sydd wedi gwneud y gwrthwyneb i'r hyn yr ydym yn sôn amdano, a gadael eglwysi Saesneg a dod i'n plith. Mae nifer ohonynt bellach wedi dod yn aelodau mewn eglwysi Cymraeg gan ein bendithio'n fawr â'u ffydd, eu doniau a'u gweledigaeth. Diolchwn ninnau i'r Arglwydd amdanynt.

A dyna fi, unwaith eto, wedi cael dweud fy nweud. Mae gan Gristnogion yr hawl i addoli pa le bynnag y mynnant ond fy mwriad i yma yw procio cydwybod yn fwy grasol, gobeithio, na'r hen Emrys ap Iwan!

**Alun Tudur**



## MAE HELP AR GAEL BOB AMSER – *parhad*

Mae'r Llinell Gymorth yn cael ei rhedeg gan dîm o weithwyr proffesiynol diogelu gofalgar sydd â phrofiad, gwybodaeth ac arbenigedd helaeth o bob rhan o'r sector diogelu (h.y. yr heddlu, gwaith cymdeithasol, addysg), yn ogystal â dealltwriaeth glir o'r ffydd Gristnogol ac anghenion a chyd-destun eglwysi ledled y DU. Mae'r tîm yn cynnig eu cyngor mewn ffordd sensitif a chefnogol a hefyd yn ei ddilyn yn ysgrifenedig drwy e-bost fel bod yna gofnod o'r sgwrs/cyngor. Mae cytundeb rhannu gwybodaeth, yn caniatáu i thirtyone:eight rannu manylion y galwadau a dderbyniwyd gan eglwysi o dan gylch gwaith y Panel (h.y. y tri enwad) gyda Julie Edwards, Swyddog Diogelu'r Panel, fel y gellir cynnig cefnogaeth ac adnoddau dilynol priodol.

Byddem yn annog yr eglwysi o fewn y tri enwad (yr Eglwys Bresbyteraidd, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) i beidio ag oedi cyn estyn allan at y panel neu'r llinell gymorth i ofyn am gymorth wrth wynebu sefyllfa ddiogelu. Mae llawer o bobl yn poeni nad yw eu pryder yn ddigon difrifol, weithiau dim ond greddf fach bod rhywbeth o'i le. Ond byddem yn eich cynghori i godi'r ffôn bob amser a rhannu eich pryder.

Dyma ddyfyniad gan weinidog sydd wedi estyn allan am help ac ar ôl cael profiad cadarnhaol, nid oedd yn oedi cyn cysylltu y tro nesaf:

'Mae cymorth y Panel wedi bod mor werthfawr i mi fel gweinidog. Maent wedi bod ar gael i'n helpu gyda phryderon a materion diogelu ymarferol, rhoi cyngor pan fo angen a thawelu unrhyw bryderon.'

*I gysylltu neu i gael mwy o wybodaeth am thirtyone:eight neu'r Panel, dilynwch y dolenni.*
*https://panel.cymru/en/ 01745 817584*
*https://thirtyoneeight.org 0303 003 1111*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Capel Hope-Siloh

Cafwyd llu o ddathliadau Gŵyl Ddewi yn ein capel dros yr wythnosau diwethaf. Roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o blant ifanc y capel yn cymryd rhan yn y gwasanaeth i ddathlu ein nawddsant, Dewi. Diolch yn fawr i Meinir Jones am baratoi'r gwasanaeth. Cafwyd hefyd noson hyfryd o gawl a chân gydag adloniant gan gôr Lleisiau Lliw. Roedd y festri fawr dan ei sang a phawb mewn hwyliau da'n morio canu yn y caneuon cynulleidfaol.

Diolch yn fawr i Gwenda Evans a'r criw fu wrthi'n paratoi'r wledd o gawl. Roedd hi hefyd yn hyfryd gallu dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn y clwb babanod. Roedd hi'n hyfryd gweld y plant bach wedi gwisgo yn eu gwisgoedd Cymreig. Eto eleni, roedd hi'n arbennig gweld y capel i gyd yn dathlu'n Cymreictod.






# Dydd Gweddi'r Byd

Dyma ragor o luniau o'r rhai gymerodd rhan mewn oedfaon Dydd Gweddi'r Byd a gynhaliwyd ar hyd a lled Cymru ar ddydd Gwener 7 Mawrth. Thema'r oedfa eleni a baratowyd gan ferched Cristnogol Ynys Cook oedd: 'Rwyf wedi eich gwneud yn rhyfeddol.'



*Chwiorydd Ffynnonbedr*



*Chwiorydd Llandysul*



*Chwiorydd Gofalaeth Thomas Charles*



*Chwiorydd Capel y Groes Ebeneser Wrecsam*

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*